Y Comisiwn Etholiadol

Adroddiad chwarterol ar drafodion (benthyciadau) i blaid wleidyddol

Nodiadau esboniadol ar gwblhau'r ffurflen RP10b

Cyn llenwi'r ffurflen hon, dylai pob plaid ddarllen ein canllaw rhoddion a benthyciadau er mwyn cael arweiniad cynhwysfawr ar y rheolaethau ar drafodion sy'n gymwys i bleidiau gwleidyddol.

Mae'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol cofrestredig gyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau i'r Comisiwn Etholiadol ar ddiwedd pob chwarter calendr.

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), defnyddir 'buddiant' i gyfeirio at roddion a benthyciadau sydd, gyda'i gilydd, dros £500. Mae'n rhaid i bleidiau gyfansymio unrhyw roddion a benthyciadau a dderbynnir neu a ymgymerir gan yr un ffynhonnell mewn flwyddyn galendr ac adrodd am unrhyw fuddiannau sy'n bodloni'r trothwy adrodd.

Dylai pleidiau gyflwyno adroddiad trafodion a reoleiddir os ydynt wedi gwneud yr un o'r canlynol yn ystod y chwarter calendr perthnasol:

- mae'r blaid ganolog wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion newydd (gan gynnwys benthyciadau wedi'u cyfansymio) sy'n werth mwy na £11,180
- mae unrhyw rai o unedau cyfrifyddu'r blaid wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion newydd (gan gynnwys benthyciadau wedi'u cyfansymio) sy'n werth mwy na £2,230
- gwnaed newidiadau i drafodyn wedi'i reoleiddio y rhoddwyd gwybod amdano yn flaenorol
- ymgymerwyd â thrafodyn wedi'i reoleiddio gyda chyfranogwr anawdurdodedig

Yn ogystal, yn Chwarter 4, mae'n ofynnol ar bleidiau i gynnwys manylion unrhyw fuddiannau cyfansymiol o fwy na £11,180 a wnaed i adrannau gwahanol o'r blaid (a elwir hefyd yn 'rhoddion adran 62(12)' a 'benthyciadau 'adran 71M(12)'). **Dim ond yn yr adroddiadau rhoddion a benthyciadau ar gyfer Chwarter 4 y mae angen adrodd am y buddiannau hyn.**

Dylai pleidiau nad oes ganddynt fenthyciadau perthnasol i'w hadrodd gofnodi adroddiad o 'ddim' gan ddefnyddio'r ffurflen RP10QNb, oni bai eu bod wedi'u heithrio rhag cyflwyno adroddiadau trafodion.

Rhaid cyflwyno'r adroddiad cyn pen 30 diwrnod o ddiwedd y chwarter calendr (gweler isod).

Mae pob nodyn yn cyfateb i adran wedi'i rhifo ar ffurflen RP10b.

A1 Manylion plaid gofrestredig

Nodwch enw cofrestredig y blaid, a chyfeirnod y blaid (mae'n dechrau gyda RPP).

At hynny, nodwch y cyfnod adrodd chwarterol perthnasol a'r flwyddyn:

- Chwarter 1 (Ionawr–Mawrth)
- Chwarter 2 (Ebrill-Mehefin)
- Chwarter 3 (Gorffennaf-Medi)
- Chwarter 4 (Hydref-Rhagfyr)

A2 Datganiad a llofnod

Rhaid i'r ffurflen gael ei llofnodi a'i dyddio gan yr unigolyn a gofrestrwyd yn drysorydd gyda'r Comisiwn Etholiadol.

Pwysig: Mae'n drosedd i drysorydd wneud datganiad anwir, a hynny'n fwriadol neu'n ddi-hid, neu fethu â chyflwyno adroddiad cyn pen 30 diwrnod o ddiwedd cyfnod adrodd.

B1 Benthyciad neu gyfleuster credyd y mae angen rhoi gwybod amdanynt gan gyfranogwr awdurdodedig sy'n gwmni

a

B2 Benthyciad neu gyfleuster credyd y mae angen rhoi gwybod amdanynt gan gyfranogwr awdurdodedig ar wahân i gwmni

Dylech ond gwblhau adran B1 os ydych wedi ymgymryd â thrafodyn wedi'i reoleiddio gyda chyfranogwr awdurdodedig sy'n gwmni cofrestredig yn y DU. Os nad oes gennych drafodion o'r fath i'w hadrodd, rhowch groes drwy'r adran.

Dylech ond gwblhau adran B2 os ydych wedi ymgymryd â thrafodyn wedi'i reoleiddio gyda chyfranogwr awdurdodedig ar wahân i gwmni cofrestredig yn y DU. Os nad oes gennych drafodion o'r fath i'w hadrodd, rhowch groes drwy'r adran.

Dylid defnyddio'r dudalen sy'n cynnwys adran B1 neu B2 ar wahân mewn perthynas â phob trafodyn perthnasol y mae angen rhoi gwybod amdano.

Adran B1 yn unig: Nodwch **enw llawn, cyfeiriad a rhif cofrestru'r cwmni** yr ymgymerwyd â'r trafodyn ag ef. **Rhaid** sicrhau mai cyfeiriad cofrestredig y cwmni yw'r cyfeiriad a nodir.

Adran B2 yn unig: Nodwch **enw llawn a chyfeiriad** y cyfranogwr yr ymgymerwyd â'r trafodyn ag ef. Yn achos unigolion, dangoswch a ydynt wedi cofrestru'n gyfrinachol ar y gofrestr etholiadol. (Ni fydd llawer o achosion fel hyn). **Rhaid** sicrhau mai cyfeiriad unigolyn yw'r cyfeiriad lle y mae wedi'i gofrestru i bleidleisio.

Noder: Ni chaiff cyfeiriad unigolion ei gyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

Adran B2 yn unig: nodwch statws y cyfranogwr awdurdodedig.

Dylid nodi'r rhan o'r blaid (h.y. trefniadaeth ganolog neu uned gyfrifyddu) a ymgymerodd â'r trafodyn gyda'r cyfranogwr awdurdodedig yn y blwch **gwnaed y benthyciad i**.

Benthyciad/Cyfleuster Credyd: Dilëer fel y bo'n briodol i adael y term sy'n disgrifio orau y trafodyn wedi'i reoleiddio.

Cyfeirnod y benthyciad: Dylai hwn fod yn rhif unigryw a ddynodir gan y blaid i sicrhau y gellir adnabod y trafodyn yn y dyfodol. . Byddai hyn yn bwysig pe bai angen rhoi gwybod i'r Comisiwn am unrhyw newidiadau i sicrhau y nodir y trafodyn cywir

Nodwch y **dyddiad** yr ymgymerwyd â'r trafodyn wedi'i reoleiddio.

Nodwch y **dyddiad** ar gyfer ad-dalu'r trafodyn wedi'i reoleiddio. Os yw'r trafodyn yn amhenodol neu'n ad-daladwy yn ôl cytundeb gyda'r cyfranogwr, nodwch ddatganiad i'r perwyl hwn. Os yw'r benthyciad yn ad-daladwy yn ôl cytundeb, nodwch fanylion y rheolau y gallai'r naill blaid neu'r llall eu defnyddio i sicrhau y caiff y benthyciad ei ad-dalu yn y blwch mawr ar waelod yr adran.

Nodwch y **gwerth** ar gyfer: benthyciad, uchafswm y benthyciad, cyfleuster credyd, yr uchafswm y gellir ei hawlio o dan y cyfleuster. Nid yw gwerth trafodyn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer ychwanegu llog i'r swm sy'n weddill yn hytrach na'i ad-dalu. Ymhlith enghreifftiau o werthoedd mae benthyciad arian parod gwerth £100,000 neu derfyn o £15,000 ar gerdyn credyd a roddwyd i'r blaid. Os nad oes uchafswm gan y trafodyn o ran gwerth, nodwch hynny yn lle rhif.

Nodwch sut y caiff y **llog** ei gyfrifo ar y trafodyn hwn, neu os yw'r ganran yn sefydlog, nodwch y gyfradd. Os yw'r gyfradd llog yn amrywiol, defnyddiwch y blwch 'rhagor o wybodaeth' i nodi manylion am sut y caiff ei bennu. Yn gyntaf, dylech esbonio pa gyfradd sylfaenol sy'n cael ei defnyddio (e.e. cyfradd sylfaenol banc penodol neu Gyfradd Gwerthu Rhwng Banciau Llundain (LIBOR)). Yn ail, dylech nodi'r amrywiant o'r sylfaen hwnnw (e.e. Banc Lloegr minws un y cant neu LIBOR plws dau y cant). Os nad oes unrhyw log yn cael ei godi, ticiwch y blwch priodol.

Os caiff y trafodyn hwn ei gofnodi fel rhan o broses **gyfansymio**, nodwch a yw'n cael ei gyfansymio â benthyciadau eraill neu â rhoddion.

Nodwch a oes **sicrwydd** wedi'i roi mewn perthynas â'r benthyciad.

Nodwch a ellir **ychwanegu'r llog** at y swm sy'n weddill neu'r benthyciad yn hytrach na'i ad-dalu.

Nodwch unrhyw **wybodaeth berthnasol arall** sydd ei hangen fel y nodir uchod.

B3 Trafodyn cysylltiedig (gwarant neu sicrwydd) gan gyfranogwr awdurdodedig sy'n gwmni

a

B4 Trafodyn cysylltiedig (gwarant neu sicrwydd) gyda chyfranogwr awdurdodedig ar wahân i gwmni.

Dylech ond gwblhau adran B3 os ydych wedi ymgymryd â thrafodyn cysylltiedig gyda chyfranogwr awdurdodedig sy'n gwmni cofrestredig yn y DU. Os nad oes gennych drafodion o'r fath i'w hadrodd, rhowch groes drwy'r adran.

Dylech ond gwblhau adran B4 os ydych wedi ymgymryd â thrafodyn cysylltiedig gyda chyfranogwr awdurdodedig ar wahân i gwmni cofrestredig yn y DU. Os nad oes gennych drafodion o'r fath i'w hadrodd, rhowch groes drwy'r adran.

Dylid defnyddio'r dudalen sy'n cynnwys adran B3 neu B4 ar wahân mewn perthynas â phob trafodyn perthnasol y mae angen rhoi gwybod amdano.

Adran B3 yn unig: Ar gyfer y cwmni sydd wedi rhoi'r gwarant neu'r sicrhad, nodwch **enw llawn, cyfeiriad a rhif cofrestru'r cwmni**. **Rhaid** sicrhau mai cyfeiriad cofrestredig y cwmni yw'r cyfeiriad a roddir.

Adran B4 yn unig: Nodwch **enw llawn a chyfeiriad** y cyfranogwr a roddodd y warant neu'r sicrwydd. Yn achos unigolion, dangoswch a ydynt wedi cofrestru'n gyfrinachol ar y gofrestr etholiadol. (Ni fydd llawer o achosion fel hyn). **Rhaid** sicrhau mai'r cyfeiriad a roddir ar gyfer unigolyn yw'r cyfeiriad lle y mae wedi'i gofrestru i bleidleisio.

Noder: Ni chaiff cyfeiriad unigolion ei gyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

Adran B4 yn unig: nodwch statws y cyfranogwr awdurdodedig.

Nodwch y **dyddiad** pryd y cytunwyd ar y warant neu'r sicrwydd.

Nodwch **werth y trafodyn cysylltiedig** neu, os yw'n anghyfyngedig, nodwch hynny mewn datganiad. Y gwerth yw'r uchafswm y gallai fod yn rhaid i'r gwarantwr ei dalu.

Nodwch a yw'r trafodyn cysylltiedig hwn yn gysylltiedig â thrafodyn wedi'i reoleiddio y rhoddwyd gwybod amdano. Os felly, nodwch gyfeirnod unigryw'r trafodyn wedi'i reoleiddio y rhoddwyd gwybod amdano'n wreiddiol. Fel arall, rhowch fanylion am y trafodyn gwreiddiol yn y blwch 'gwybodaeth berthnasol arall'.

Os caiff y trafodyn hwn ei gofnodi fel rhan o broses **gyfansymio**, nodwch a yw'n cael ei gyfansymio â benthyciadau eraill neu â rhoddion.

Os yw'r sicrwydd yn ymwneud â **hawliau dros eiddo**, nodwch hynny a rhowch fanylion yr eiddo yn y blwch 'gwybodaeth berthnasol arall'. Dylid rhoi manylion y math o eiddo a gynigir fel sicrwydd a'i werth e.e. eiddo preswyl, cyfranddaliadau, eiddo masnachol ac amcangyfrif o'i werth.

Nodwch a fydd y gwarantwr yn cael **cydnabyddiaeth** gan y blaid. Os felly, nodwch fanylion unrhyw arian, nwyddau neu wasanaethau y bydd yn ei gael yn y blwch 'gwybodaeth berthnasol arall'.

Nodwch unrhyw **wybodaeth berthnasol arall** fel y nodir uchod.

C1 Benthyciad neu gyfleuster credyd nas caniateir

Dylech ond gwblhau'r adran hon os ydych wedi ymgymryd â thrafodyn wedi'i reoleiddio gyda chyfranogwr anawdurdodedig. Os nad oes gennych drafodion o'r fath i'w hadrodd, rhowch groes drwy'r adran.

Dylid defnyddio'r dudalen ar wahân mewn perthynas â phob trafodyn perthnasol y mae angen rhoi gwybod amdano.

Nodwch yr un wybodaeth ag y byddai ei hangen yn adrannau B1 neu B2 (gweler uchod am gyfarwyddiadau).

Nodwch y **dyddiad** yr ymdriniwyd â'r trafodyn ar ôl i'r cyfranogwr gael ei farnu'n gyfranogwr nas caniateir.

Hefyd, nodwch **sut yr ymdriniwyd â'r trafodyn** h.y. sut y cafodd ei ddychwelyd a pha log, os o gwbl, a dalwyd.

Nodwch unrhyw **wybodaeth berthnasol arall** yn ôl yr angen.

C2 Trafodyn cysylltiedig nas caniateir (gwarant neu sicrwydd)

Dylech ond gwblhau'r adran hon os ydych wedi ymgymryd â thrafodyn cysylltiedig gyda chyfranogwr anawdurdodedig. Os nad oes gennych drafodion o'r fath i'w hadrodd, rhowch groes drwy'r adran.

Dylid defnyddio'r dudalen hon ar wahân mewn perthynas â phob trafodyn perthnasol y mae angen rhoi gwybod amdano.

Nodwch yr un wybodaeth ag y byddai ei hangen yn adrannau B3 neu B4 (gweler uchod am gyfarwyddiadau).

Nodwch y dyddiad yr ymdriniwyd â'r trafodyn ar ôl i'r cyfranogwr gael ei farnu'n gyfranogwr nas caniateir.

Hefyd, nodwch **sut yr ymdriniwyd â'r trafodyn**.

Nodwch unrhyw **wybodaeth berthnasol arall** am yr hyn sy'n briodol.

D Newid i drafodyn y rhoddwyd gwybod amdano'n flaenorol

Dylech ond gwblhau'r adran hon os yw telerau trafodyn y rhoddwyd gwybod amdano'n flaenorol wedi newid. Os nad oes gennych drafodion o'r fath i'w hadrodd, rhowch groes drwy'r adran.

Dylid defnyddio'r dudalen hon ar wahân mewn perthynas â phob newid perthnasol y mae angen rhoi gwybod amdano.

Nodwch **gyfeirnod unigryw** y trafodyn y rhoddwyd gwybod amdano'n flaenorol sydd wedi'i ddiwygio, ac ym mha chwarter y rhoddwyd gwybod amdano.

Nodwch y **dyddiad** pryd y gwnaed y newid.

Nodwch p'un a yw'r **benthyciad wedi dod i ben**.

Nodwch p'un a fu newid o ran cyfranogwyr y benthyciad a/neu delerau eraill y benthyciad y rhoddwyd gwybod amdanynt.

Yn y blwch 'rhagor o fanylion', nodwch enw a chyfeiriad unrhyw gyfranogwr newydd (a rhif cofrestru'r cwmni, os yw'n berthnasol) a/neu fanylion am y telerau eraill sydd wedi newid. Nid oes angen rhoi gwybod eto am delerau a chyfranogwyr nas newidiwyd.

Dylid dychwelyd ffurflen RP10b i:

Party and Election Finance
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 0333 103 1928
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost: pef@electoralcommission.org.uk
Y We: comisiwnetholiadol.org.uk